

**OCSIWN FAWR  
GŴYL FAI  
DYFFRYN NANTLLE**

**Dydd Gwener, Mai 14, 2010**

**Ocsiwn i gychwyn am 6.30pm**

**ORIEL LLUN-MEWN-FFRAM**

**35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, LL54 6NG**

**Cyfle i ymweld a'r Oriel  
i gael golwg ymlaen llaw**

**Derbynir cynigion mewn amlen  
arbennig yn yr Oriel drwy law  
Meical Roberts neu ffoniwch eich  
cynigion i**

**01286 882688 • 01286 882056**

**07768906694 • 07768668016**

*Derbynir taliadau trwy sic  
neu arian parod yn unig*

# CATALOG

1. *Drilio i Ffrwydro*. Darlun olew gwreiddiol o waith **IFOR PRITCHARD**. Un o arlunwyr gorau Cymru heddiw sydd yn portreadu hen chwarelwyr Dyffryn Nantlle mewn ffordd unigryw.
2. *Pysgotwyr*. Darlun gwreiddiol o waith **WILLIAM SEIWYN**, arbenigwr mewn dyfrlliw, dyma un o artistiaid mwyaf poblogaidd Cymru ac enillydd nifer helaeth o wobrwyon ym myd celf.
3. Darlun olew gwreiddiol o waith **STEPHEN JOHN OWEN**. Ganwyd yng Nghaernarfon ac wedi dod i amlygrwydd yn ddiweddar gyda'i dirluniau trawiadol.
4. Darlun gwreiddiol o waith **CARYS BRYN** o Ben Llŷn sydd yn cynhyrchu gwaith aml-gyfrwng. Comisiynwyd Carys Bryn i ddarlunio'r llyfrau plant poblogaidd *Tecwyn y Tractor*.
5. Print ffotograffig gan **GERAINT THOMAS, PANORAMA CYMRU**. Ardal Caernarfon ac Eryri ydyw prif darged lens Geraint a dyma un o'i luniau trawiadol o Ddyffryn Nantlle.
6. Print du a gwyn gan y ffotograffydd **TUDUR OWEN**, Croesor. Darlun o Bryn Terfel a Les (ei wraig) ac eraill yn blant ysgol pan yn gweithio fel 'extras' ar ffilm o hanes Lloyd George. Mae Tudur Owen yn arbenigwr ar dynnu lluniau du a gwyn a'i ddelweddau yn cael eu gweld mewn nifer o gylchgronau.
7. *O'r Ysgol Sul*. Darn o waith gwreiddiol gan **LUNED RHYS PARRI**, gwaith sydd yn nodweddiadol o'r gwaith manwl llawn hiwmor a gynhyrchir ganddi.
8. Print ffotograffig *Ffion/Bysedd y Cŵn* gan **ANNA FÔN**. Yn byw yn Nasareth ac wedi ei geni a'i magu yn Nyffryn Nantlle mae Anna yn cynhyrchu gwaith o wahanol ddeunyddiau.
9. Print o waith **DIANA WILLIAMS**. Daw'r artist o Fodorgan, Ynys Môn ac mae ei chynlluniau unigryw a'i thriniaeth o hwiangerddi Cymraeg yn boblogaidd iawn.

10. Darn o waith gwreiddiol gan **RUTH MYFANWY**.  
Artist lleol o Benygroes sydd hefyd yn dylunio cloriau llyfrau.
11. Dylunio lamp/pwffi arbennig i'r tŷ gan y dylunydd **LEAH HUGHES** o S4C ('Dathlu' a '4 Wal') yn eich dewis chi o liw.  
Bydd y cynllun i'w weld ar S4C yn ystod mis Mehefin ar raglen newydd *Sioe i'r Tŷ*.
12. Tusw o flodau. Trefniant gwych gan **RHIAN**. Cyfle i ddangos eich cariad/gwerthfawrogiad neu gyfleu neges arbennig trwy brydferthwch blodau.
13. Cynhyrchu Gwefan / Enw parth am 2 flynedd / 'Hosting' am flwyddyn – Cyfle gwych i gael gwefan broffesiynol (personol neu i'ch busnes) wedi ei chynhyrchu gan Robat Jones o gwmni **DREAM INTERNET SOLUTIONS**, cwmni lleol profiadol iawn sydd yn gyfrifol am wefannau o'r safon uchaf.
14. Cinio i ddau gan Enid yn y **CLWB GOLFF**, Caernarfon.
15. Cinio i ddau yng **NGWESTY'R GOAT**, Glandwyfach.
16. Pecyn o gryno ddisgiau newydd o **NA 'NOG** – Gwibdaith Hen Frân / Elin Fflur / Cymysgedd.
17. MOT i'r car o **GAREJ ARWYN**, Stad Ddiwydiannol, Penygroes.
18. MOT i'r car o **GAREJ HUW GERAINT** (H G Motors), Stryd Fawr, Penygroes.
19. Basged o win wedi ei gyflwyno gan westy'r **HARP INN** (Ty'n Llan) Llandwrog – hampyr hyfryd i bawb sydd yn hoff o win.
20. Potel o wirodydd gan **WESTY'R BLACK BOY**, Caernarfon.

*Ni fydd yr ocsiwn o reidruwydd yn dilyn y drefn  
sydd yn ymddangos uchod*

